Y Groes Goch Brydeinig | British Red Cross

# Llosgiadau

Cardiau chwarae rôl: **Llosgiadau**

## Beth sy'n digwydd?

Mae rhiant yn coginio swper i'r teulu. Mae'r gegin yn brysur ac yn swnllyd gyda phobl yn cerdded i mewn ac allan drwy'r amser. Mae'r pryd bron yn barod i'w weini – dim ond angen draenio'r llysiau. Mae pawb ar frys i fwyta gan fod y ddau blentyn angen mynd i glybiau gyda'r nos.

Cardiau chwarae rôl: **Llosgiadau**

## Syniadau ar gyfer llwyfannu

- Crëwch olygfa o'r gegin drwy aildrefnu byrddau i'w defnyddio fel cownteri.
- Rhowch bot a chling-ffilm yn eich cegin. Peidiwch â llenwi'r pot â dŵr.
- Dechreuwch gyda'r rhiant yn diffodd yr hob o dan badell boeth o lysiau.

## Rolau

- Isod ceir amrywiaeth o rolau – mewn grwpiau bach, mae pob un yn dewis cymeriad i'w chwarae. Gwnewch yn siŵr bod pob un yn y grŵp yn cael cyfle i chwarae rôl pob cymeriad. Neu, darllenwch y senario fel stori.
- Treuliwch amser yn mynd i mewn ac allan o'r rôl.

## Sesiwn ôl-drafod

- Wedyn, treuliwch ychydig o amser yn trafod y stori. Gallech feddwl am y canlynol:
- Beth ddigwyddodd i'r un sydd wedi llosgi? Pa arwyddion o losgi a welwyd?
- Sut wnaeth y cynorthwyydd eu helpu?
- Beth wnaeth y gwyliwr? Beth allent ei wneud yn y dyfodol i fod yn gynorthwywr?

---

Cardiau chwarae rôl: **Llosgiadau**

## Rhedwr

Mae'r unigolyn hwn yn gweini swper i'w deulu. Mae'n tynnu padell fawr oddi ar y popty ac yn symud tuag at y sinc i'w ddraenio. Mae'r sosban yn llawn llysiau mewn dŵr berwedig – felly mae'n boeth iawn.

Mae un o'r plant yn taro i mewn iddo'n ddamweiniol. Mae'n gollwng y badell, gan ollwng y dŵr poeth iawn i lawr ei goes a thros lawr y gegin.

---

Cardiau chwarae rôl: **Llosgiadau**

## Helpwr

Mae'r unigolyn hwn yn cerdded i mewn i'r gegin i roi help llaw i'w riant wrth baratoi swper.

Mae ei frawd/chwaer yn rhuthro i mewn i'r gegin ac yn taro yn erbyn ei riant yn union fel mae ar fin draenio'r sosban lysiau. Mae'r dŵr berwedig yn mynd i lawr coes y rhiant a thros y llawr i gyd. Mae'r rhiant mewn llawer o boen ac wedi cynhyrfu'n arw.
Mae sinc yn y gegin, ond mae cawod yn yr ystafell ymolchi i lawr y grisiau hefyd. Mae'n helpu i fynd â'i riant i'r ystafell ymolchi a golchi ei goes o dan ben y gawod oer am 20 munud. Mae'n ceisio tawelu meddwl y rhiant ac yn dweud wrtho y bydd yn iawn.

Mae'n gwybod bod cling ffilm yn y gegin.

---

Cardiau chwarae rôl: **Llosgiadau**

## Gwyliwr

Mae'r unigolyn hwn yn llwglyd ac eisiau bwyta swper yn gyflym a mynd allan i'w glwb. Mae'n symud yn gyflym drwy'r gegin ac yn taro erbyn ei riant tra mae'r rhiant yn gafael yn y sosban lysiau. Mae'r rhiant yn gollwng y sosban ac mae dŵr berwedig yn gollwng dros ei goes a'r llawr.

---

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol.
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd